

cychwyn adref ar ôl swper am 7.00 o'r gloch. Dyma gyfle i'r bobl ifanc gael cwmni pobl ifanc o wahanol rannau o'r Gogledd mewn awyrgylch Cristnogol.

Gweddiwn dros lwyddiant y dydd.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir cyfarfod Blynyddol Cynllun EFE yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 4.

Sul Efe

Cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch dydd Sul, Tachwedd 17.

Fel y llynedd gobeithiwn gael cwmni ysgolion Sul yr ardal yn y digwyddiad hwn. Yn wahanol i'r llynedd, ni fydd taith gerdded y tro hwn ond pawb i ddod i'r Ganolfan ar eu hunion.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Hydref 9: Dosbarth

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 6

9.30 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 20

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 27

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 13: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a chynhelir Cyfarfod Diolchgarwch am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau'r eglwysi.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Hydref 8: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Nos Fawrth, Hydref 8: Cymdeithas Undebol Llanberis am 7.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Hydref 9: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 13: Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch. Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 13: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 6

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Hydref 13

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
Diolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Hydref 20

10.00 a.m. - Y Parchg Iorwerth Jones Owen
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Hydref 27

10.00 a.m. - Y Gweinidog
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 561 - Dydd Sul, 06 Hydref 2013

Saint

Oes unrhyw un ohonoch yn gwybod beth sydd i ddigwydd ddydd Iau, Ebrill 24 y flwyddyn nesaf? Dyna'r diwrnod y bydd yr Eglwys Babyddol Rufeinig yn cynnal oedfa arbennig i gyhoeddi bod y Pab Ioan XXIII a'r Pab Ioan Paul II yn seintiau. Roedd y Pab Ioan XXIII yn arwain Eglwys Rufain o 1958 hyd 1963 a'r Pab Ioan Paul II yn ei harwain o 1978 hyd 2005. Mae yna bedwar cam i'r broses o ganoneiddio neu gyhoeddi rhywun yn sant yn nysgeidiaeth Eglwys Rufain. Cychwynnir trwy gydnabod person yn 'Was Duw', yna'n 'Arwrol mewn Rhinwedd', yna'n 'Wynfydedig', cyn ei gyhoeddi'n 'Sant'. Mae'r ffaith mai heddiw, hanner can mlynedd wedi iddo farw, y mae'r Pab Ioan XXIII yn agosáu at gael ei gydnabod yn sant yn awgrym clir iawn bod hon yn broses gymhleth ac mai cymharol ychydig yw nifer y saint o fewn yr Eglwys honno.

Mae'n amlwg bod y ddealltwriaeth o'r hyn yw 'saint' yn un o'r gwahaniaethau rhwng Eglwys Rufain a'n heglwysi Protestannaidd ni. Oherwydd yn ôl ein dealltwriaeth ni o'r Ysgrhythur, mae'r term 'saint' yn cyfeirio at holl aelodau'r Eglwys. Dyna sut y defnyddir y gair yn y Beibl, gydag awduron llythyrau'r Testament Newydd yn cyfarch y 'saint' yn y wahanol ddinasoedd. Nid term am rai pobl well na'i gilydd o fewn yr eglwysi yw 'saint' ond disgrifiad o holl bobl Dduw. Mae Paul, er enghraifft, yn ysgrifennu llythyr 'at y saint sydd yn Effesus' (Effesiaid 1:1) ac yn cyfeirio at 'yr holl saint ar hyd a lled Achaia (1 Corinthiaid 1:1). Ystyr cyntaf y gair a

gyfneithir 'saint' yw 'gosod rhywbeth neu rywun ar wahân', ac fe'i defnyddir felly i ddangos bod Cristnogion yn bobl sydd trwy Iesu Grist wedi eu neilltuo yn bobl i Dduw. Ac fel pobl wedi eu neilltuo iddo, maent yn bobl sy'n cael eu gwneud yn sanctaidd a glân.

Y ddysgeidiaeth Feiblaidd, felly, yw bod pob un sy'n credu yn Iesu Grist, ac sydd trwy hynny'n perthyn i deulu Duw, yn un o'r saint. Sôn am 'y saint' (yn y lluosog) a wna'r Beibl, ac nid am yr un 'sant' unigol. Ac os dyna a wna'r Beibl, dyna hefyd y dylem ninnau ei wneud. Ar bob cyfrif, dowch i ni ddiolch i Dduw am fywyd a chyfraniad Cristnogion arbennig o weithgar a ddefnyddiwyd gan Dduw i gynnal ei waith a helaethu ei Deyrnas ar hyd y blynyddoedd. Ond nid yw hynny'n golygu priodoli'r term 'sant' iddynt chwaith. Un o beryglon mawr gwneud hynny yw gwanhau (os nad dileu) gobaith y Cristion am y Bywyd Tragwyddol. Yn ôl y ddealltwriaeth hon, am y person a gaiff ei gydnabod yn 'Wynfydedig' y gallwn ddweud i sicrwydd ei fod yn y nefoedd. Ond gobaith yr Efengyl yw bod y drws i'r nefoedd, trwy ras Duw, yn agored led y pen i bawb sydd wedi credu yn yr Arglwydd Iesu, ac nid i'r Cristnogion prin hynny sydd yn ôl safonau'r Pab ac Eglwys Rufain wedi codi i ryw dir uwch na'r rhelyw o'u cyd gredinwyr. Ein braint yw cael credu a chyhoeddi bod pawb sy'n credu yn Iesu Grist yn perthyn i gymdeithas ddirifedi ei saint.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Llanberis gan Mr Dafydd Iwan, Caethro. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ac yna gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes, Llanberis.

Byddaf fi'n arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen am 9.30 a 5.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul yno am 10.15 o'r gloch

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Dymuniadau gorau hefyd i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Ethol Blaenoriaid

Yn ystod oedfa'r bore yn Capel Coch fore Sul diwethaf, trwy bleidlais dan oruchwyliaeth Mr Gwyn Hefin Jones a Mrs Lowri Prys Roberts Williams, Brynrefail cynrychiolwyr Henaduriaeth Arfon, etholwyd Mrs Valerie Jones, Bryn Gelli a Mrs Falmai Pritchard, Cilfynydd yn flaenoriaid yn Capel Coch.

Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonynt ar gael eu hethol.

Cynhelir oedfa arbennig dan nawdd yr Henaduriaeth yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth, Hydref 22 i ordeinio'r blaenoriaid a etholwyd yn eglwysi'r Henaduriaeth yn ystod y flwyddyn.

Mae'n debyg y bydd Falmai'n derbyn y swydd ond nad yw Valerie yn teimlo ar hyn o bryd ei bod am wneud hynny.

Yn ôl trefn yr enwad, mae cyfle i bawb a etholir yn flaenor i gymryd ei ordeinio i'r swydd yn ystod y flwyddyn ddilynol os na fydd wedi gwneud hynny ar y cyfle cyntaf.

Cyfarfod Gweddi

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch nos Fercher diwethaf.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener a daeth dau sy'n gweithio dan nawdd Coleg y Bala, Steffan a Gwenno Morris, i gynnal y noson. Cafwyd hwyl fawr yn eu cwmni, a mwynhaodd yr hogiau'r gwahanol weithgareddau.

Diolch i Andrew a Dafydd hefyd am fod yno i ofalu am y cyfarfod.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 8, a'r elw er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol

Bydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn ailgychwyn yn Capel Coch nos Fawrth, Hydref 8 gydag adloniant ysgafn yng nghwmni Treflyn, Ann a Rhys o ardal Porthmadog, a lluniaeth ysgafn i ddilyn. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

Diolchgarwch Llanberis

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch plant Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Hydref 13.

Sylwch bod hyn yn golygu bod yr Oedfa Deulu ar Sul gwahanol y mis hwn, ac mai am 10.30 o'r gloch y byddwn yn cychwyn yr oedfa y Sul nesaf.

Yr ydym wedi gofyn i deuluoedd yr Ysgol Sul ddod â bwydydd i'r oedfa ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon yn lle'r ffrwythau arferol y buom yn eu derbyn dros y blynyddoedd. Mae gennym focs casglu ar gyfer y Banc Bwyd yn y capel ers dechrau'r flwyddyn, a chan y byddwn yn cyfeirio at waith y Banc Bwyd yn y gwasanaeth Diolchgarwch mae'n gyfle i ni ei gefnogi trwy ddod â bwydydd i'r oedfa hon.

Deiniolen

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch nos Sul

nesaf, Hydref 13 yng ngofal aelodau'r eglwysi.

Y Sul wedyn, Hydref 20, cynhelir oedfaon Diolchgarwch dan arweiniad y Gweinidog am 10.00 a 5.00 o'r gloch.

Pwyllgor

Dal i ddisgwyl cadarnhad ydym y bydd cynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn dod i gyfarfod â blaenoriaid a phwyllgor adeiladau Capel Coch nos Lun, Hydref 14. Gobeithiwn gynnal y cyfarfod am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch, a chewch gadarnhad y naill ffordd neu'r llall y Sul nesaf. Ymddiheuriadau felly am yr ansicrwydd.

Cyfarfod Misol

Cynhelir Cyfarfod Misol Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 3.00 o'r gloch a 6.30 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 22. Gwasanaeth ordeinio blaenoriaid newydd fydd yr oedfa am 6.30 o'r gloch.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd yng Nghanolfan Capel Curig (dan nawdd Eglwys Annibynnol Nantybenglog) am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 29. Croeso cynnes i bawb.

Coleg y Bala ar Daith

Bydd gweithwyr ieuenticid Coleg y Bala yn cynnal diwrnod o weithgareddau 'Coleg y Bala ar Daith' ym Mharc Glasfryn, Y Ffôr ddydd Sadwrn, Hydref 19. Bydd yn ddiwrnod llawn hwyl a chaiff yr ieuenticid gymryd rhan yng ngwahanol weithgareddau Glasfryn, yn cynnwys y Cartio a'r Bowllo Deg.

Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 9.00 o'r gloch y bore. Wedi diwrnod llawn o weithgareddau bydd y bws yn